MAE TEYRNAS DDUW WEDI DOD YN AGOS

Nodyn i'r siaradwr:
Eglurwch y gwahaniaeth rhwng y deyrnas a grybwyllir yn Colosiaid 1:13 a honno y cyfeirir ati yn Datguddiad 11:15. Dangoswch fel y mae proffwydoliaeth Feiblaidd yn cael ei gwireddu yn ein dydd ni, sy'n profi fod teyrnasiad llawn y Deyrnas dros faterion y byd yn agos

'EDIFARHEWCH, OHERWYDD Y MAE TEYRNAS DDUW WEDI DOD YN AGOS' (7 mun.)

Mae eich bywyd yn dibynnu ar gydnabod fod Teyrnas Dduw yn agos

Llywodraeth nefol, yn fynegiant o awdurdod brenhinol Duw, a Iesu Grist yn ben arni yw'r Deyrnas Feseianaidd

Rhaid i'r rhai sy'n dymuno bywyd tragwyddol lefaru ar ran y Deyrnas honno

Y Deyrnas oedd thema gweinidogaeth y Meseia (Darllen Mathew 4:17)

Y pryd hwnnw, sut oedd 'y deyrnas wedi dod yn agos'?

Cafodd Iesu, etifedd gorsedd Dafydd, ei eneinio'n Frenin adeg ei fedyddio (Lc 1:32, 33; 3:21, 22)

Felly, gallai ddweud wrth y Phariseaid fod y Deyrnas (fel y'i cynrychiolid hi gan Grist) yn eu plith (Lc 17: 20, 21; *rs* 226)

Pam y bu i Iesu annog yr Iddewon i edifarhau? (Mc 1:14, 15)

'Roedd angen edifeirwch ynglŷn â sut y gweithredent mewn perthynas â'r Deyrnas (2Pedr 3:9; *w*75 12/15 750-1)

'Roedd gofyn iddyn' nhw gydnabod Duw yn iawn Frenin arnyn' nhw a'i Fab yn ddarpar Frenin

Heddiw, mae angen i bobl edifarhau am weithgareddau dan frenhiniaeth Satan a rhoi teyrngarwch llawn i Deyrnas Dduw

Ond a oes rheswm gennym 'nawr dros gredu fod y 'deyrnas yn agos'?

Oes, oherwydd gwnaeth Iesu broffwydoliaethau cyffrous yn arwyddo'i ddychweliad yn Frenin sy'n teyrnasu

Pa ddigwyddiadau sy'n arwain at awdurdod cyflawn y Deyrnas Feseianaidd dros y ddaear?

DERBYNIODD IESU DEYRNAS YSBRYDOL ADEG EI ATGYFODIAD (8 mun.)

Derbyniodd Crist deyrnas ysbrydol i ddechrau—"teyrnas ei [Duw] annwyl Fab" (Darllen Colosiaid 1:13, 14)

Wedi iddo gael ei ladd gan elynion fe'i atgyfodwyd yn yr ysbryd i fod yn Frenin y genedl newydd o Israeliaid ysbrydol (Eff 1:20-23; *w*91 8/1 11 par. 11-13)

Daeth yr "Israel Duw" hon i fodolaeth drwy dywalltiad yr ysbryd sanctaidd adeg y Pentecost 33 C.C. (Gal 6:16; Act 2:1-4)

"Trosglwyddwyd" y rhai o'r Israel hon i deyrnas ysbrydol Iesu (*it*-2 169; *rs* 232; *w*81 6/15 26-7)

Adeg y Pentecost, dechreuodd Iesu deyrnasu dros Israel ysbrydol, cynulleidfa o Gristnogion a eneiniwyd â'r ysbryd, nid dros fyd dynolryw

Cyfanswm y rhai a eneiniwyd â'r ysbryd fydd 144,000 (Dat 14:3)

Tra byddant yn y cnawd, maent yn brysur yng "ngwasanaeth y Gair" yn "genhadon yn cynrychioli Crist" (Act 6:4; 2Cor 5:20)

Bydd teyrnasiad Iesu yn 'nheyrnas ei (Duw) annwyl Fab' yn diweddu pan fydd yr olaf o'r 144,000 yn marw ac yn ymuno â Christ yn y nefoedd (*pe* 136)

Rhaid iddynt wasanaethu'n ffyddlon o dan ei deyrnas ysbrydol hyd angau er mwyn teyrnasu gyda Christ yn y Deyrnas Feseianaidd nefol. (Dat 2:10; 5:9, 10)

AWDURDOD BRENHINOL BYD EANG "EIN HARGLWYDD NI A'I GRIST EF" YN CYCHWYN (8 mun.)

Fe fyddai amser yn dod pan fyddai Iesu yn derbyn awdurdod fel Brenin Teyrnas Dduw

Byddai'n teyrnasu dros "frenhiniaeth y byd" gan deyrnasu dros yr holl ddynolryw ar y ddaear (*re* 171-2; darllen Datguddiad 11:15-18)

Yna byddai Jehofah, "ein Harglwydd," yn dechrau defnyddio'i rym mawr i deyrnasu dros y byd mewn ystyr unigryw

Byddai Iesu, "ei Grist ef," â rhan yn y teyrnasu byd eang hwn

Byddai Iesu atgyfodedig yn eistedd ar ddeheulaw Duw nes y byddai'n amser i gychwyn teyrnasiad y Deyrnas yng nghanol ei elynion (*ws* 22-3; darllen Salmau 2:1-6)

Mae prif gyflawniad Salm 2 wedi bod yn digwydd oddi ar ddiwedd Amser y Cenhedloedd yn 1914 (*ws* 24-8)

Y pryd hwnnw ganed plentyn gwryw, neu'r Deyrnas (Dat 12:1, 2, 5)

YR HYN A OLYGA TEYRNASIAD Y DEYRNAS I WRTHWYNEBWYR A CHEFNOGWYR (10 mun.)

'Does dim niwtraliaeth ynglŷn â'r Deyrnas; naill ai 'rydym ni o blaid y Brenin Iesu Grist neu yn ei erbyn (Lc 11:23)

Fe fydd y Deyrnas Feseianaidd—y "garreg" a naddwyd o'r "mynydd" sy'n symboleiddio awdurdod brenhinol bydysawdol Jehofah—yn fuan yn dryllio cyfundrefn byd Satan (Dan 2:34, 35, 44, 45; *go* 66-70)

Cyn y digwydd hynny, o dan ddylanwad satanaidd fe fydd rheolwyr bydol yn ceisio dileu cefnogwyr y Deyrnas (Dat 12:17)

Fe fydd Jehofah yn achub y rhai sy'n llefaru ar ran y Deyrnas; fe fydd y Brenin Iesu Grist yn difa'u gelynion yn Armagedon (Esec 38:18-22; *ws* 152-9)

Fe fydd y rhai sy'n elynion i'r Deyrnas ac i dystion y Deyrnas yn dioddef eu trechu'n waradwyddus (Sech 14:12)

Fe fydd "tyrfa fawr" o gefnogwyr y Deyrnas yn goroesi ac yn mynd i mewn i'r Mil Blynyddoedd gyda'r gobaith sicr am fywyd tragwyddol (Dat 7:9, 14, 17)

MAE'R "ARWYDD" YN PROFI FOD TEYRNASIAD Y DEYRNAS YN AGOS (8 mun.)

Mae digwyddiadau'n dangos fod Crist yn bresennol yng ngrym y Deyrnas; felly fod terfyn rheolaeth Satan ar y trothwy

Mae "arwydd" presenoldeb Crist yn cynnwys digwyddiadau gychwynnodd yn 1914 (Darllen Mathew 24:3, 7)

Mae marchogaeth marchogion y Datguddiad yn digwydd (Dat 6:1-8; *re* 89-99)

Y prawf mwyaf fod teyrnasiad y Deyrnas yn agos ydi'r gwaith pregethu byd eang a wneir gan Dystion Jehofah (Mth 24:14)

Dyma "newydd da" y Deyrnas sydd eisoes wedi'i sefydlu

Ni chyflawnwyd y fath bregethu am y Deyrnas erioed o'r blaen

COFIWCH FOD TEYRNAS DDUW YN AGOS (4 mun.)

Fe anogodd Iesu: "Byddwch wyliadwrus" (Mth 24:42)

Ydych chi'n gwylio? 'Fedrwch chi ddarllen yr "arwydd" yn gywir?

Mae cyflawniad "yr arwydd" yn dangos fod Teyrnas Dduw yn agos yn wir—y mae eisoes wedi dechrau teyrnasu!

Mae hyn yn golygu fod difa'r hen gyfundrefn gerllaw

Byddwch fyw er mwyn y byd newydd, nid er mwyn yr hen fyd

Ymegniwch i sicrhau eich iachawdwriaeth (Lc 13:24; 2Pedr 3:13-15)

Mynnwch fod â chyfran brysur ag eraill yn cyhoeddi: Mae Teyrnas Dduw wedi dod yn agos!

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)